

Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin

SWWR-04-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Gwener 15 Tachwedd 2002

Amser: 10.00am hyd 12.55pm

Lleoliad: Clwb Cymdeithasol Penlan, Penlan, Abertawe

**Yn
bresennol:** **Aelodau**

Val Lloyd (Cadeirydd)

Dwyrain Abertawe

Andrew Davies

Gorllewin Abertawe

Janet Davies

Gorllewin De Cymru

Edwina Hart

Gwyr

Dai Lloyd

Gorllewin De Cymru

Gwenda Thomas

Castell-nedd

Rhodri Glyn Thomas

Dwyrain Caerfyrddin & Dinefwr

Cyflwynwyr: Ann Bateman

Rheolwr Siop, Monkton, Penfro

PC Max Bevan

Heddlu Dyfed Powys

Elaine Howarth

Prosiect Communities that Care

Debra Jones

Prosiect Communities that Care

Yr Uwcharolygydd Bob
McAllister

Heddlu De Cymru

Ken Sawyer

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Sally Thompson

Cyngor Sir Benfro

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Jane Westlake

Clerc y Pwyllgor

Claire Morris

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Peter Black

Gorllewin De Cymru

Nick Bourne

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Alun Cairns

Gorllewin De Cymru

Cynog Dafis

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Glyn Davies

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Richard Edwards

Preseli Sir Benfro

Delyth Evans

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Brian Gibbons

Aberafan

Christine Gwyther

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Helen Mary Jones

Llanelli

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Eitem 2: Trosedd ac Anhrefn

Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn Castell-nedd Port Talbot

2.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu trosglwyddo'n ffurfiol i Edwina Hart, y Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi'r Cynulliad ar drosedd ac anhrefn ac am gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch ei rhaglenni i fynd i'r afael â'r materion. Roedd y Gweinidog hefyd yn aelod o'r Pwyllgor.

2.2 Tynnodd Edwina Hart sylw at y ffaith y gallai gangiau cyffurfiau sydd wedi'u trefnu fod yn fygythiad posibl i ddiogelwch cymunedau yn y De. Roedd yr heddlu o'r farn bod y gangiau yn gweld De Cymru fel marchnad bosibl ar gyfer cyffurfiau Dosbarth A, megis crack cocaine a heroin. Roedd heddluoedd Gwent, De Cymru a Dyfed Powys wedi gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar gynllun gweithredu strategol. Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai £630,000 ar gael i gefnogi gwaith y tasglu flwyddyn nesaf ac yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol wedyn, ynghyd â thaliad un-tro ar gyfer costau cyfalaf flwyddyn nesaf, gan roi cyfanswm o fwy na £2.5 miliwn. Byddai'r arian yn helpu gyda chostau offer cyfalaf, cyfathrebu, ffioedd proffesiynol, hyfforddiant a chostau gweithredol a byddai'n dod o'r Gronfa Cymunedau Mwy Diogel newydd, gwerth £11.2 miliwn, a gyhoeddwyd yn y gyllideb yn ddiweddar.

Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn Castell-nedd Port Talbot

2.3. Rhoddodd Ken Sawyer, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r Uwcharolygydd Bob McAllister, Heddlu De Cymru, gyflwyniad ar waith y Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd 10 o'r wardiau yng Nghastell-nedd Port Talbot o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac roeddent yn elwa ar arian drwy'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.
- Roedd Tîm Trosedd ac Anhrefn yr Awdurdod Lleol yn gweithio o orsaf heddlu ym Mhort Talbot, a oedd yn dangos yr ymrwymiad i weithio ar y cyd.
- Roedd y Tîm Troseddwr Ifanc yn adrodd yn uniongyrchol i Brif Weithredwr y Cyngor yn hytrach na'i fod yn rhan o'r adran gwasanaethau cymedeithasol, fel oedd yn arferol.
- Roedd ystadegau wedi dangos cwmp mewn rhai troseddau, er enghraifft roedd lefelau lladrata o dai wedi cwmpo yn ystod y tair blynedd diwethaf, ond roedd troseddau eraill megis dwyn ffonau symudol yn peri bod cynnydd cyffredinol yn y ffigurau sydd ar glawr.
- Gwelwyd cynnydd hefyd mewn troseddau treisgar a'r rheswm am hyn oedd bod mwy o achosion o drais yn y cartref yn cael eu nodi yn sgil datblygu'r Uned Trais yn y Cartref.
- Y cyngor oedd yn arfer derbyn y rhan fwyaf o'r cwynion am graffiti a fandaliaeth, ond ar ôl buddsoddi yn y meysydd hyn roedd y rhan fwyaf o'r cwynion bellach yn ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

- Roedd Grwp Adolygu Achos Trosedd ac Anhrefn aml-asiantaeth wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac roedd modd defnyddio nifer o opsiynau, naill ai ar gyfer unigolion neu grwpiau. Am y tro cyntaf, roedd pobl yn cael eu herio ac yn cael clywed na fyddai'r gymuned yn goddef ymddygiad gwael.
- Ar hyn o bryd, roedd pedwar Gorchymyn Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol (ASBO) a 12 Contract Ymddygiad Derbyniol. Roedd yr olaf mewn grym am chwe mis ac roedd yn rhaid i'r person dan sylw lofnodi contract yn dweud na fyddent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd neu weithgareddau penodol yn ystod yr amser hwnnw. Roedd y contractau hyn wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth herio ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Yn gyffredinol, roedd tramgwyddau treisgar yn tueddu i gael eu cyflawni gan bobl dan ddylanwad alcohol tra roedd troseddu'n tueddu i fod yn gysylltiedig â chyffuriau, wrth i bobl geisio dod o hyd i fwy o arian i brynu cyffuriau.
- Roedd rhai'n pryderu nad oedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Swyddfa Gartref yn cydnabod gofynion unigryw Cymru.
- Talwyd teyrnged i waith gwych Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol Gorllewin Morgannwg ond mynegwyd pryder ynghylch y ffordd yr oedd yn cael ei hariannu. Nid oedd neb yn gwybod a fyddai'r cynllun atgyfeirio arestiadau yn parhau wedi 31 Mawrth 2003.

2.3 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau Aelodau, dyma ddywedodd Mr Sawyer a'r Uwcharolygydd McAllister:

- Roedd tueddiad i labelu pobl ifanc a oedd yn annheg am fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwneud cyfraniad da a pharod i gymdeithas.
- Roedd gweithwyr ieuenctid yn effeithiol iawn ac roeddent yn croesawu'r cynnydd diweddar yn eu niferoedd.
- Cydnabuwyd cyfraniad cynghorau cymuned sy'n gweithio'n lleol gyda'r heddlu, ond roedd adnoddau'n brin ac nid oedd bob amser yn bosibl i'r heddlu ymateb a gweithio mor glòs ag yr hoffent.
- Roedd yr heddlu'n gweithio gyda thafarndai a chlybiau yn Abertawe a Chaerdydd i dreialu'r defnydd o wydrau plastig mewn tafarndai a chlybiau ond roedd llawer o bobl bellach yn yfed o boteli.
- Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drwyddedu i awdurdodau lleol yn rhoi mwy o bwerau i'r heddlu gymryd camau yn erbyn safleoedd lle ceir llawer o drais.
- Roedd rhai'n pryderu na fyddai byrddau iechyd lleol yn ddigon mawr i feddu ar yr holl adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol.
- Dylai sefydliadau fod yn gallu defnyddio arian newydd ar gyfer mentrau cyffuriau ac alcohol yn y ffordd fwyaf effeithiol yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfyngu gan ganllawiau rhy llym.

2.4 Gwahoddwyd y cyhoedd wedyn i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

2.5. Soniodd **Heather Jordan** am y diffyg diogelwch ar safleoedd tai cyngor.

2.6 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n siarad â Ms Jordan ar ôl y cyfarfod am ei phryderon personol.

2.7 Dywedodd Ken Sawyer y gallai'r Tîm Trosedd ac Anhrefn ddarparu cloeon a systemau diogelwch eraill ar gyfer rhai sydd wedi profi lladrad.

2.8 Dywedodd **Mair Baker** bod angen rhoi mwy o hyfforddiant ar sut i ddelio â phobl ifanc â phroblemau ymddygiad i weithwyr ieuenctid.

2.9 Dywedodd Ken Sawyer nad oedd gan bobl ifanc ddiddordeb mewn mynd i glybiau ieuenctid. Roedd menter o'r enw 'Street Wise' wedi'i sefydlu lle roedd gweithwyr ieuenctid yn mynd i lefydd lle roedd pobl ifanc yn ymgynnull a byddai'n fuddiol iawn pe bai modd estyn y trefniant ad hoc hwnnw i gymunedau eraill.

2.10 Dywedodd **Barbara Phillips**, o **Gymdeithas Tenantiaid Blaenymaes** fod troseddu wedi gostwng yn sylweddol a bod nifer o broblemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol wedi cael eu trin ers i Dîm Plismona Cymunedau'n Gyntaf gael ei sefydlu ym Mlaenymaes ym mis Ebrill. Roedd am ddiolch i'r Tîm.

2.11 Dywedodd **Nigel Lewis** ei bod yn anodd cael pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau i'w cadw oddi ar y strydoedd pan oedd trafndiaeth gyhoeddus allan o Flaenymaes yn wael.

2.12 Dywedodd Edwina Hart mai cwmnïau preifat oedd yn rhedeg y gwasanaeth bws ers y dad-reoleiddio, ond byddai'n codi'r mater gyda Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, yn enwedig er mwyn gweld beth y gellir ei wneud yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Communities that Care

2.13 Rhoddodd Alison Shotbolt, Elaine Howarth a Debra Jones o'r prosiect Communities that Care, Abertawe, gyflwyniad i'r Pwyllgor. Amgaeir copi yn Atodiad A.

2.14 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau Aelodau, dyma ddywedodd y cyflwynwyr:

- Mae adfywio economaidd yn sail i waith Communities that Care ac yn allweddol o ran meithrin cynaliadwyedd mewn cymunedau.
- Roedd problem gydag oedolion yn prynu alcohol i blant iau. Roedd grwp lleihau cyffuriau Communities that Care yn edrych am ffordd gydlynol o dargedu oedolion, pobl ifanc a phlant

ysgol ar yr un pryd.

- Dylai'r Cynulliad sicrhau bod rhaglenni a mentrau yn cael eu cydlynu.
- Roedd angen symleiddio'r drefn ar gyfer cael arian o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd am ei fod yn rhwystro grwpiau cymunedol bach rhag cael ato.

2.15 Dywedodd Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y byddai'r cyflwyniad yn arbennig o berthnasol i adolygiad y Pwyllgor ar adfywio cymunedol a gofynnodd i gopi gael ei roi i'r Athro Dave Adamson, cynghorydd arbennig yr adolygiad.

2.16 Gwahoddwyd y cyhoedd wedyn i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

2.17 Dywedodd **Mair Baker** fod angen i addysg cyffuriau mewn ysgolion fod yn fwy cyfoes a pherthnasol i bobl ifanc.

2.18 Dywedodd Edwina Hart ei bod wedi trafod addysg cyffuriau gyda phedwar Prif Gwnstabl Cymru ac y byddai hi hefyd yn codi'r mater gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd sawl grwp yn gweithio ym maes addysg cyffuriau, rhai ohonynt yn cynnwys rhieni ac eraill yn mynd â phobl a oedd yn arfer defnyddio cyffuriau i ysgolion i sôn am eu profiadau. Byddai angen monitro arferion da ac ystyried a yw'n briodol ymyrryd pan fo plant yn ifancach.

2.19 Gofynnodd **Margaret Glover** a allai anfon awgrymiadau i'r Pwyllgor ynghylch symleiddio'r broses o wneud cais am grant.

Grwp Diogelwch Cymunedol Sir Benfro

2.20 Rhoddodd Sally Thompson, Swyddog Diogelwch Cymunedol, Cyngor Sir Benfro, PC Max Bevan, Swyddog Diogelwch Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys ac Ann Bateman, rheolwr siop yn Monkton, gyflwyniad ar waith y Grwp Diogelwch Cymunedol a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd Heddlu Dyfed Powys yn gweithredu polisi sgrinio troseddau. Roedd un o swyddogion yr heddlu yn mynd i weld pawb a oedd wedi dioddef unrhyw drosedd.
- Cynigiwyd hyfforddiant gan Goleg Atal Troseddu'r Swyddfa Gartref ar gyfer pob un o'r asiantaethau a oedd yn bartneriaid yn y Grwp Diogelwch Cymunedol.
- Ni fyddai ynadon lleol ond yn rhoi trwydded i weithio fel person wrth y drws pe bai'r ymgeisydd wedi cwblhau cwrs hyfforddi'r Sefydliad Prydeinig ar gyfer Tafarnwyr. Byddai camau'n cael eu cymryd yn erbyn unrhyw un a gâi ei weld yn gweithio heb drwydded.
- Roedd gweithwyr ieuenctid yn cael hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth cyffuriau fel eu bod yn gallu nodi problemau penodol. Roeddent hefyd yn gobeithio cyflwyno rhagor o weithwyr ieuenctid a gweithwyr iechyd er mwyn mabwysiadu dull mwy cyfannol o weithio.
- Nid hyrwyddwyr adloniant oedd yn gyfrifol am gydymffurfio â thrwyddedau. Pobl oedd yn dal y drwydded oedd yn gyfrifol ac roeddent wedi cael cynnig offer CCTV symudol i fonitro digwyddiadau o'r fath ac oherwydd hyn roedd rhai gwerthwyr cyffuriau wedi cadw draw.

- Roedd cynllun ar waith i helpu adwerthwyr bach mewn ardaloedd difreintiedig i deimlo'n fwy diogel. Gallai hyn olygu gwella goleuadau y tu allan i siopau, gwella cloeon drysau, codi ffensiau diogelwch neu godi'r llawr y tu ôl i gownter y siop fel bod staff yn uwch na'r cwsmer ac yn gweld y siop yn well.
- Roedd trais yn y cartref yn broblem yn Sir Benfro ac roedd angen mynd i'r afael â hyn drwy ddull aml-asiantaeth.
- Gall pobl fod yn gyndyn i sôn yn swyddogol am droseddau sy'n ymwneud â hiliaeth a homoffobia. Roedd rhaglen o hyfforddiant ar amrywiaeth wedi cael ei datblygu.
- Roedd y syniad o greu warws data ar y cyd yn cael ei ystyried ond nid oedd Heddlu Dyfed Powys eto wedi dechrau defnyddio'r system gyfathrebu briodol a fyddai'n gwneud hyn yn bosibl.
- Roedd angen datblygu system yn awr i fesur effeithiolrwydd y mentrau a oedd ar waith yn y sir.
- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i fabwysiadu gweithdrefn lle gellid trosglwyddo unrhyw amheuaeth o drais yn y cartref gan ysgol i ddwylo'r heddlu lleol.
- Roedd y 'Bobby Van' yn ymweld â phawb a oedd wedi profi lladrad a oedd dros 60 neu unrhyw un a oedd, i bob golwg, yn agored i niwed, ac roedd eu cartrefi yn cael eu gwneud yn ddiogel. Ar hyn o bryd roedd mwy o alw nag adnoddau.

2.21 Gwahoddwyd y cyhoedd wedyn i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

2.22 Gofynnodd **Brian Smith, Cyngor Cymuned Pennard** beth arall allai cynghorau cymuned ei wneud i weithredu argymhellion Adran 17 y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

2.23 Dywedodd Edwina Hart fod cynghorau cymuned yn cyflawni rôl werthfawr wrth feithrin perthynas â phobl ifanc ac roedd yn ymwybodol bod rhai yn ystyried cyflogi gweithwyr ieuenctid.

2.24 Dywedodd **Ros Davies, NACRO Cymru**, ei bod wedi bod yn gweithio ym maes camddefnyddio sylweddau am flynyddoedd lawer a'i bod am ategu'r sylwadau a wnaed ynghylch rhoi mwy o arian i atal. Ni fyddai'r problemau a oedd yn wynebu cymunedau yn dod i ben os na fyddai arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith ieuenctid.

2.25 Dywedodd Edwina Hart fod gwaith eisoes wedi dechrau o ran edrych i weld o ble yr oedd cyffuriau'n dod ac adfer. Y cam nesaf oedd nodi pa adnoddau sydd eu hangen i weithio gyda phobl ifanc.

2.26 Dywedodd **Barbara Phillips, o Gymdeithas Tenantiaid Blaenymaes**, fod ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn llwyddiannus o'i phrofiad hi. Bu newid mawr ym Mlaenymaes a diolchodd i'r Cynulliad am yr arian yr oeddent wedi'i dderbyn,

2.27 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd ac i'r gynulleidfa am gymryd rhan. Diolchodd hefyd i

John Morgan, y steward ac i aelodau Clwb Cymdeithasol Penlan am ganiatáu i'r Pwyllgor ddefnyddio'r cyfleusterau.

Eitem 3: Cofnodion y Cyfarfod ar 24 Mai 2002

3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Eitem 4: Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.1 Gan ddibynnu ar gadarnhad terfynol, câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal ar 31 Ionawr 2003 yn Neuadd y Plwyf, Llangennith, Gwyr. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried meithrin gallu ym maes adfywio cymunedol fel rhan o'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Atodiad A

Nid yw Atodiad A ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg

Presentation by Communities that Care, Swansea

Presenters: Alison Shotbolt, Co-ordinator, Communities that Care Swansea

Debra Jones, Parent Volunteer, Bonymaen Family Centre

Elaine Howarth, Parent Volunteer, Bonymaen Family Centre

Communities that Care Swansea is a Partnership of voluntary and statutory agencies and members of the local community covering the Eastside area of Swansea, (Llansamlet, Bonymaen and Pentrechwyth).

Communities that Care is a community-based, long-term preventive programme which uses the concept of reducing risks and increasing protection for children and young people, so that the quality of life in the community is itself, the most effective preventative tool.

Simple as this idea is, the process requires:

- Systematic, focussed and sustained activity,
- Well researched information,
- And most importantly the involvement of those who live in the community and those who provide services in an equal partnership.

Although the ultimate aim of Communities that Care Swansea, is to reduce the incidence of young people's involvement in crime and violence, in substance abuse, school age pregnancy and school failure, our activity is far more holistic in scope. We can't possibly describe all the activity to you this morning (we have 20 objectives and over 70 recommended actions in our Action Plan for Eastside) but we will try to give you a flavour of the way the programme works and a brief insight into one particular initiative and the people who make it work.

We began in 1998 when the Joseph Rowntree Foundation selected Eastside to be one of three demonstration areas for the UK. Following a survey of every secondary school pupil in the area which provided a unique insight into young people's lives, attitudes and experiences, a Community Planning Team was elected at a public meeting. The team, led by a local resident, comprised community members and agency representatives, and over the next five months they scrutinised the data from the survey to identify the priority risk factors. The team carried out a resource audit and then prepared a detailed Action Plan. Following feedback at another public meeting, five Task Groups of residents. Organisations and agencies were formed, to oversee the implementation of the Plan. The Planning team regularly monitors Task Group progress and feeds back annually to the community.

The five Task Groups are:

- Strengthening Ties among Families (a title chosen by one of the parents on the group). Their programme includes Parenting courses, like Handling Children's Behaviour; increasing and improving child care provision; post natal services and family support.
- The Raising Achievement Task Group addresses Family Learning; the introduction of cognitive skills programmes at pre-school, primary and secondary levels; after-school provision and out of school learning; improving school, family and community links and post 16 opportunities for learning.
- The programme for the Combating Disadvantage and Neighbourhood Neglect Task group includes increasing the number of community policing initiatives; co-ordinated multi agency approaches to neighbourhood improvements and community development initiatives; mediation services and the establishment of the Eastside Domestic Violence Forum (Whose Problem?).
- There is also a group tasked with Reducing Young People's sense of Alienation and lack of Social Commitment, which is now a thriving network of youth service providers and young people involved in developing their own action plan.
- Finally, the programme for the group tasked with Reducing the Availability of Drugs combines both enforcement and educational initiatives in a co-ordinated approach and developing 'safe' drug free spaces for young people.

Like the risk factors they address, the programmes are not mutually exclusive and there are common threads that run through each of the task areas.

When looking at young people in relation to issues of crime and disorder it is perhaps too easy to be lured into focussing only on the deficit model of young people –THE HALF EMPTY GLASS. The glass is

also HALF FULL and in the CtC programme not only do we try to reduce risk factors, but we also attempt to increase protective factors, i.e. social bonding (positive relationships with adults, peers, community); values and healthy standards; recognition and praise; opportunities to be involved (essential for future citizenship skills) and social and cognitive skills (the ability to relate, to problem solve and to understand the relationship between action and consequence).

One of the initiatives that best illustrates the concepts of early intervention, protection and prevention is the High Scope model of early years learning, being piloted by one of the partner organisations, Bonymaen Family Centre.

Input from parent volunteers

Elaine Howarth

The high scope curriculum is an open framework approach in which adult and child plan and initiate activities by actively working together. Children develop their own activities through the Plan – Do – Review sequence. Within an open learning environment children:

- *Plan - with adults and alone what activities they wish to engage in.*
- *Do - children with adult support explore/ use the activities on offer (sand, water and top table's games).*
- *Review - in a peer group with adults to talk about what they have been doing.*

There is also a time for direct active learning in small groups.

For example in a Traditional Nursery setting, (having drawing's or words to look at) and in a High Scope setting, (having the materials where ever possible e.g. Apple)

From the High Scope approach it is evident that there is positive interaction between adult and child. Through this process children begin to match consequences of their actions to the outcome. They become more expressive in language and self-motivation. They rely less on praise and begin to have an understanding and confidence of the world around them. The result of 30yr research study by The High/Scope Institution shows children develop a strong sense of self-control and self-discipline.

- *They are more likely to stay in education longer.*
- *They are a significantly lower percentage receiving social services input.*
- *They are less likely to become persistent offenders of drug taking and dealing.*

Debra Jones

Being a mum of 4, I automatically became someone's 'mum'. I was so involved with bringing up my children, seeing to their needs, that I seemed to lose my own identity.

When our Family Centre opened, I joined the parent and toddler group with my two younger children. Whilst there I became involved with a variety of activities like fundraising, art, first aid and parenting classes. I learned a lot from these courses and other things I did there and it got me thinking about 'What I was going to do about returning to work when my children were settled into full time school?

What was I any good at? The answer was there – My Children. This was a turning point for me, I enrolled for the N.V.Q Early Years Care & Education Course and with plenty of help and support from people on every side, juggling my coursework about my 4 children, I succeeded in gaining my Levels 2 & 3 N.V.Q. I knew then, that I had made the right decision and went on to do The High/Scope Implementation Training.

I feel that this education has been of great benefit to both my children and myself, it has helped me to understand, encourage and praise my own children as well as others. Obviously I am still a full time mum and we 'as parents' want the same opportunities for our children but we can't do this alone. We need the understanding and support of both Local and National Governments.

In any long term programme monitoring is essential and in June of last year we carried out our second school survey. We have already been able to detect some changes in risk and protective factors. Early indications show a decrease in the number of young people reporting family conflict (down by 8%); violence towards them in the home (50% less reportings); that it is easy to truant (down by 10%) and condoning of regular drinking and smoking (a drop of 16% on 1998 figures). However there were smaller, but significant increases in the number of young people condoning the use of illegal substances (5%); picking a fight (8%) attacking someone with harmful intent (3%) and bullying or being bullied. (This however needs to be viewed against the increased work the schools in the area have done in raising awareness of this issue). Sadly too the number of young people feeling that people in their neighbourhood were proud of them or encouraged them to do their best had dropped significantly.

These insights, together with comparative data from a Swansea-wide survey and a UK wide survey done at the same time have enabled us to focus our action and set specific targets for the next 3/7/10 years (our survey schedule). I am also engaged in finding ways that other programmes can access the data collected for the rest of Swansea for their own use: I am currently talking to one of the Development Trusts and have begun providing training for Swansea Youth Activities (an Objective 1 partnership), the Detached Youth work Team and Youth Access/Alternative Curriculum Teams.

It wouldn't be appropriate to end without sharing with you some of the challenges we face.

- Implementation of the Action Plan is by no means as even as it needs to be yet. It often depends on the availability of funding and the willingness and ability of agencies to take on the recommended programmes. (A head teacher recently commented that it was not lack of support or belief in the work that inhibited his school from contributing, but he felt that both he and his staff were overwhelmed by initiatives already).
- I am always amazed at how 'joined up' the Action Plan is, for example, in addressing life long learning, health, crime and disorder, regeneration and welfare agendas. The challenge is to weave it into current strategies and to dovetail with other initiatives.
- We have already benefited from the introduction of targeted funding like Sure Start that has enabled the development of much of the family programme, but sometimes it can be too prescriptive to meet local need. A recent example was the CAD money, which disappointedly did not cover work on alcohol misuse, shown from our research to be the main problem amongst children and young people on Eastside and indeed in many other areas of Swansea.
- And last but not least, CtC's methodology is to promote evidence-based responses (like High Scope) to identified problems, but it is not always possible or appropriate to use 'off-the-shelf' models. We need to respect and work with locally and regionally developed initiatives. There is therefore a need for rigorous, longitudinal evaluation to run alongside initiatives and there has to be adequate provision made for this.

So in conclusion – I would like to support Debra's contention by saying that communities are themselves, one of the most valuable resources we have in addressing youth crime, but they need the trust and support of everyone to do it.

Alison Shotbolt